Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Local Government and Public Services Committee

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

25 Mai 2004

Annwyl Gyfaill

Ymchwiliad y Pwyllgor i'r drefn o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus

Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymchwilio i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu yng Nghymru. Byddai'r Pwyllgor yn falch o dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan gyrff ac unigolion sydd â diddordeb er mwyn cyfrannu gwybodaeth at yr ymchwiliad hwn.

Er y bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar arolygu a rheoleiddio o fewn llywodraeth leol yng Nghymru, byddwn yn croesawu sylwadau gan reoleiddwyr ac arolygwyr ar draws y sector cyhoeddus, y rheini sy'n destun arolygiadau a rheoleiddio ac eraill sydd â diddordeb yn effaith rheoleiddio ac arolygu ar wella gwasanaethau cyhoeddus.

Rwy'n amgáu cylch gorchwyl yr ymchwiliad gan gynnwys materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor a manylion ynghylch sut i fynd ati i ymateb. Mae croeso ichi ddangos y gwahoddiad hwn i unrhyw un a allai fod â diddordeb yn y maes.

Yn gywir

Ann Jones

Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Ymchwiliad i'r drefn o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

Cylch gorchwyl
Nod yr ymchwiliad yw:

Ystyried y drefn ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau arolygiaethau, eu rhyngweithiad â'r cyrff sy'n cael eu harolygu a chyfraniad y drefn at wella gwasanaethau cyhoeddus.

Diffiniad Adroddiad y Fforwm Archwilio Cyhoeddus, 2002:
Arolygu, sef y broses o graffu achlysurol ac annibynnol wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cwrdd â safonau perfformiad cenedlaethol a lleol, gofynion deddfwriaethol a phroffesiynol, ac anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, ac adrodd ar hynny;

Rheoleiddio, sef y broses lle mae gweithgarwch y sector cyhoeddus a grymoedd y farchnad yn cael eu cyfeirio er budd y cyhoedd. Mae'n cynnwys 'awdurdodi' neu 'gofrestru' cyrff er mwyn cynnal gweithgareddau wedi'u rheoleiddio a monitro eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol a safonau proffesiynol. Gall hefyd olygu pennu gweithgareddau gorfodol a rheoli prisiau.

Materion allweddol
Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn derbyn sylwadau ar y materion canlynol. Os nad ydynt i gyd yn berthnasol gallwch ddewis y materion hynny sydd fwyaf perthnasol i'ch sefydliad chi.

- Effaith rheoleiddio ac arolygu ar wella gwasanaethau cyhoeddus a sut y mae hynny'n cael ei fesur;

- Effaith rheoleiddio ac arolygu ar staff;

- Y baich y mae arolygu yn ei roi ar y cyrff sy'n cael eu harolygu;

- Cost arolygu, gan gynnwys costau cydymffurfio, costau o ran cyfleoedd, colli golwg ar flaenoriaethau;

- I ba raddau y mae'r amcanion penodol o reoleiddio ac arolygu yn cael eu deall;

- Swyddogaeth a chyfrifoldebau y cyrff rheoleiddio ac arolygu;

- Annibyniaeth ac amhleidioldeb y cyrff rheoleiddio ac arolygu;

- Y fframwaith statudol y mae'r cyrff rheoleiddio ac arolygu yn gweithio oddi fewn iddo;

- Cynllunio ac amseru rhaglenni arolygu a'r berthynas rhwng y gwahanol gyrff arolygu. I ba raddau y mae gwaith y cyrff rheoleiddio ac arolygu yn gorgyffwrdd neu'n ategu ei gilydd;

- Y trefniadau arolygu gan gynnwys y fethodoleg a'r meini prawf;

- Y gwahanol ddulliau o fynd ati i reoleiddio ac arolygu a rhannu arferion da rhwng cyrff rheoleiddio ac arolygu a;

- Sut y mae'r cyrff rheoleiddio ac arolygu yn cael eu dwyn i gyfrif, gan gynnwys y trefniadau craffu allanol.

Ymateb
Os ydych am ymateb i'r ymchwiliad, dylech anfon eich cyflwyniadau ysgrifenedig atom, yn ddwyieithog os yn bosibl, erbyn **27 Awst 2004.** Byddai o gymorth inni pe baech yn:

- Trefnu eich sylwadau o dan y penawdau a nodir uchod;

- Ychwanegu unrhyw sylwadau eraill ar faterion nad ydym wedi ymdrin â hwy uchod, ond yr ydych chi'n meddwl eu bod yn bwysig;

- Cynnwys crynodeb o'ch sylwadau os ydynt yn fwy na thair tudalen o hyd;

- Os nad ydych am i'ch ymateb gael ei gyhoeddi, dylech nodi hynny. (Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir yn electronig ar ein gwefan, a gosod copïau papur o'r rheini a dderbynnir drwy'r post yn ein llyfrgell, oni bai fod yr awdur yn gofyn yn benodol iddynt aros yn gyfrinachol. Caiff yr holl ymatebion eu cynnwys mewn crynodeb ystadegol neu grynodeb arall o'r canlyniadau.)

Dylech anfon eich ymateb drwy e-bost i Local-Govn.comm@wales.gsi.gov.uk neu drwy'r post at:

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

Mwy o wybodaeth
Gallwch weld gwybodaeth am y Pwyllgor ar ein gwefan www.cymru.gov.uk o dan Pwyllgorau'r Cynulliad/Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod eich ymateb cyn ei anfon atom ni, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Siwan Davies ar 029 2089 8501 neu e-bostiwch: siwan.davies@wales.gsi.gov.uk